# Cenn@d

IONAWR 31 2024 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 153


# 'Distawrwydd yw cyd-fynd'

## – anerchiad gwylnos heddwch Llangollen, 20 Ionawr

Aeth 106 o ddyddiau heibio – 106 o ddyddiau a 75 mlynedd.
106 o ddyddiau o ladd, erchyllterau a throseddau rhyfel.
106 o ddyddiau o ryfel hil-laddol.
75 mlynedd o feddiant.

Mae'n iawn ein bod ni'n sefyll yma – yn y dref sydd er 1947 wedi bod yn gartref i Eisteddfod Ryngwladol a aned o ludw yr Ail Ryfel Byd ac a gafodd ei sefydlu ar egwyddorion heddwch a chyfiawnder.

Mae'n iawn ein bod yn sefyll yma er mwyn condemnio'r bomio di-baid, diwahân ar ein brodyr a'n chwiorydd Palesteinaidd yn Gaza gan fyddin Israel, gyda chefnogaeth yr Unol Daleithiau a'n llywodraeth ni ein hunain yn San Steffan.

Mae hwn bellach yn rhyfel sydd mewn perygl gwirioneddol o fynd allan o reolaeth wrth i Yemen, Libanus, Syria ac Irac gael eu bomio.

Mae'n iawn inni sefyll yma a galw am gadoediad ac am ddiwedd ar y gwallgofrwydd apocalyptaidd hwn.

102 o flynyddoedd yn ôl, yn dilyn lladdfa ddisynnwyr y Rhyfel Byd Cyntaf, anfonodd plant Cymru'r 'Neges Heddwch ac Ewyllys Da' gyntaf i'r byd, yn galw am heddwch a diwedd ar ryfel.

Daeth hyn yn draddodiad blynyddol ac mae'n parhau hyd heddiw.

Ym 1924 – 100 mlynedd yn ôl – darlledwyd eu neges heddwch ar Wasanaeth Byd y BBC am y tro cyntaf.

Ddeufis yn ôl, ar 7 Tachwedd 2023, fe ddarlledodd grŵp arall o blant neges i'r byd.

Y tro hwn, nid Cymry oedd y plant ond Palestiniaid, a chynhaliwyd cynhadledd i'r wasg y tu allan i Ysbyty Al Shifa yn ninas Gaza, yn dilyn mis o beledu di-baid oedd eisoes wedi lladd 4,000 o'u cyfoedion.

Plediodd llefarydd blêr ond balch a diysgog y grŵp, bachgen 9 oed (yn Saesneg) â'r byd i'w hamddiffyn nhw:

'We came to shout as children, urging you all to protect us. Stop the death. We want life. We want peace. We want a trial for the killers. We want medicine. We want food. We want education. We want life.'

Ac fe wnaeth y byd eu siomi.

Mae Ysbyty Al Shifa wedi ei ddinistrio a dinas Gaza wedi ei chwalu'n yfflon.

Ac mewn cwta dri mis mae 13,000 o blant wedi'u lladd – wedi'u rhwygo'n ddarnau wrth iddynt gysgu, chwarae, bwyta, gweddïo, cuddio rhag y bomiau mewn mannau y credent oedd yn ddiogel iddynt.

Fe wnaeth y byd eu siomi.

Tybed beth fyddai'r plant hynny a ysgrifennodd y neges gyntaf honno o heddwch dros 100 mlynedd yn ôl yn ei feddwl?

Rwy'n meddwl bod y byd wedi eu siomi hwythau hefyd.

Mae'n iawn inni sefyll yma i alaru am y 13,000 o blant hynny a'r 17,000 o ddynion a merched a laddwyd yn ystod y tri mis diwethaf.

Bûm ym Mhalestina yn ddiweddar, yn beicio ar draws y Lan Orllewinol i godi arian ar gyfer yr elusen Medical Aid for Palestinians. Hwn oedd fy mhedwerydd ymweliad.



Llun: Llun: Cymorth Cristnogol

Roeddwn i yn y rhan sydd wedi ei meddiannu o ddwyrain Jerwsalem ar fore'r 7 Hydref.

Deffrôdd ein grŵp i sŵn seirenau cyrch awyr, ffrwydradau rocedi'n glanio 10–15 milltir i ffwrdd a system amddiffyn taflegrau 'Iron Dome' Israel.

Gallem weld y rocedi uwchben. Clywsom danio gynnau o wrthdaro mewn strydoedd heb fod yn rhy bell o'n gwesty, oedd 300 metr oddi wrth fosg Al Aqsa.

Roedd yn frawychus, yn swreal ac yn annifyr.

Yn ystod ein hamser yn y Lan Orllewinol yn seiclo o Jenin i Jerwsalem drwy Nablus, Ramallah, Jericho, Bethlehem a Hebron, gwelsom drosom ein hunain system apartheid Israel o ddad-ddyneiddio, bychanu, o ormes, trais, creulondeb a chosb dorfol. System a luniwyd cyn 7 Hydref.

Ar ein diwrnod cyntaf un o feicio, fe wnaethon ni reidio i gwmwl o nwy dagrau wrth i ni nesáu at dref fechan Sebastia ger Nablus, dinas sydd dan warchae. Mae Sebastia'n un o'r trefi hynaf ar y Lan Orllewinol lle mae pobl wedi bod yn byw yn ddi-dor, a dyma fan claddu Ioan Fedyddiwr. Mae ymsefydlwyr anghyfreithlon ac eithafol dan warchodaeth byddin Israel yn aml yn meddiannu'r dref.

Wrth i ni nesáu ati, i fyny llethr serth, teimlais fy mrest yn tynhau, llosgi yn fy ngwddf, ac yna dechreuodd fy llygaid a'm hwyneb bigo. Roedd milwyr Israel wedi tanio nwy dagrau at ieuenctid Sebastia. Roedden nhw'n protestio yn erbyn y ffaith fod sgwâr eu tref wedi ei meddiannu gan wladychwyr arfog Israelaidd gyda milwyr yn eu cefnogi, a ninnau wedi cyrraedd tua diwedd y digwyddiad.

Mae'n anodd gwybod ble i ddechrau wrth sôn am yr hyn sydd wedi digwydd yn Gaza ers 7 Hydref. Mae'r erchyllterau annisgrifiadwy yn ein gadael mewn cyflwr o anghrediniaeth.

Mae'r difrod difrifol a wnaed gan daflegrau Israel i seilwaith hanfodol y cyfleusterau yn llain Gaza yn echrydus. Mae seilwaith gofal iechyd llain Gaza yn cael ei ddileu'n fwriadol. Ar 6 Hydref roedd 36 o ysbytai'n weithredol yn Gaza. Heddiw does yna ddim un. Clywn am feddyg yn torri troed ei ferch ei hun i ffwrdd. Heb anaesthetig.

*(parhad ar y dudalen nesaf)*


Croesi moroedd: stori Jonathan a Nela
Tudalen 2

Portread o John Calfin a'i ddylanwad o fewn Eglwys Bresbyteraidd Cymru
Tudalen 4

Cyhoeddi cofiant Saesneg cyntaf yr Arglwydd Gwilym Prys-Davies
Tudalen 8

*Distawrwydd yw cyd-fynd*
*– gwylnos heddwch Llangollen, 20 Ionawr*
*(parhad o dudalen 1)*

Beth ddigwyddodd inni fel ein bod yn caniatáu hyn? Mae teuluoedd cyfan yn cael eu lladd yn ddiarbed. Cymdogaethau cyfan yn cael eu dinistrio. Plant yn casglu rhannau o gyrff eu perthnasau meirw i fagiau plastig i'w claddu. Plant ifanc yn cael eu gorfodi i fagu eu brodyr a'u chwiorydd eu hunain wrth i'w mamau a'u tadau gael eu lladd.

Beth ddigwyddodd inni fel ein bod yn caniatáu hyn?

Caiff Palestiniaid eu llwgu i farwolaeth. Mae afiechydon marwol yn carlamu drwy wersylloedd a llochesi dros dro, a'u trigolion ofnus a blinedig yn crymu mewn ofn rhag y bomio di-baid. Rhybuddia arbenigwyr ni y bydd mwy yn marw o afiechyd, newyn, a bod heb gysgod nag sydd wedi cael eu lladd gan fomiau a thaflegrau. Mae hynny'n 30,000 mwy o farwolaethau o leiaf. Gallai nifer terfynol y marwolaethau gyrraedd cannoedd o filoedd – 10–20 y cant o boblogaeth Gaza.

Fel y dywed y Palestiniaid wrthym – mae pethau'n gwaethygu bob dydd.

Adeg y Nadolig, cafwyd pregeth gan un o offeiriaid Bethlehem, y Parchedig Munther Isaac – ffrind a chymydog i Nidal, ein tywysydd ar y daith feics o gwmpas Palestina. Pery ei neges mor ingol yn awr â phan gafodd ei thraddodi:

"Mae'r rhyfel hwn wedi cadarnhau i ni nad yw'r byd yn ein gweld ni'n gyfartal. Efallai mai lliw ein croen ydy o. Efallai ei fod oherwydd ein bod ar ochr anghywir yr hafaliad gwleidyddol. Ni wnaeth hyd yn oed ein perthynas yn nheulu Crist ein cysgodi.

"Rydym wedi ein cythruddo gan y modd mae'r eglwys wedi cyd-fynd efo'r hyn sydd wedi digwydd. Bydded yn eglur: distawrwydd yw cyd-fynd, ac mae galwadau gwag am heddwch heb gadoediad a diwedd ar y meddiant, a geiriau arwynebol o empathi heb weithredu uniongyrchol — i gyd dan faner y cyd-fynd hwn.

"Felly fy neges i chi yw hyn: Gaza heddiw yw cwmpawd moesol y byd. Roedd Gaza yn uffern ar y ddaear cyn 7 Hydref.

"Os nad ydych yn cael eich arswydo gan yr hyn sy'n digwydd, os na chewch eich ysgwyd hyd eich sail, mae rhywbeth o'i le ar eich dynoliaeth.

"Os nad ydym ni, fel Cristnogion, yn cael ein cynddeiriogi gan yr hil-laddiad hwn, a'r defnydd o'r Beibl fel arf i'w gyfiawnhau, y mae rhywbeth o'i le ar ein tystiolaeth Gristnogol, ac mae hygrededd yr Efengyl mewn perygl!

"Os na fyddwch yn galw hyn yn hil-laddiad, yna holwch eich cydwybod. Mae'n bechod ac yn dywyllwch yr ydych yn fodlon ei gofleidio.

"Mae'n flin gen i drosoch chi. Fe fyddwn ni'n iawn. Er gwaethaf yr ergyd aruthrol



Llun: Palestinian News & Information Agency (Wafa) in contract with APAimages, CC BY-SA 3.0, via Wikimedia Commons

rydym wedi'i dioddef, fe ddown ni drwyddi. Byddwn yn codi ac yn sefyll ar ein traed eto o ganol dinistr, fel yr ydym bob amser wedi'i wneud fel Palestiniaid, er mai dyma'r ergyd fwyaf o bell ffordd a gawsom ers amser maith.

"Ond eto, yn achos y rhai sy'n cyd-fynd â hyn, yr wyf yn teimlo trueni drosoch. A fyddwch chi byth yn goresgyn hyn?

"Ni fydd eich elusen, eich geiriau o syndod AR ÔL yr hil-laddiad, yn gwneud unrhyw wahaniaeth. Ni fydd geiriau o edifeirwch yn ddigon. Ni fyddwn yn derbyn eich ymddiheuriad ar ôl yr hil-laddiad.

"Rwyf am i chi edrych yn y drych ... a gofyn: ble roeddwn i pan oedd hil-laddiad yn digwydd yn Gaza?"

Allwn ni ddim eistedd yn ôl a gwneud dim tra mae hil-laddiad yn cael ei ffrydio'n fyw o'n blaenau. Rydym ni oll dan ddyletswydd a rhwymedigaeth i weithredu i'w atal.

Yn yr 1980au, safodd pobl Cymru ysgwydd wrth ysgwydd â phobl dduon o dde Affrica yn erbyn y system apartheid greulon. Trwy brotestiadau a boicotio, fe wnaethom helpu i ddod â'r system ormesol honno i ben.

A phan ddaeth Nelson Mandela i Gymru ym 1998 ar ôl iddo gael ei ryddhau o'r carchar, diolchodd i bobl Cymru am ein cydsafiad wrth helpu i ddod â diwedd ar apartheid.

Ac fel y dywedodd Mandela ychydig fisoedd ynghynt: "Rydym yn gwybod yn rhy dda bod ein rhyddid yn anghyflawn heb ryddid y Palestiniaid."

Felly, yn awr, yn 2024 mae'n ddyletswydd arnom i wrando ar alwad y Palestiniaid am ddadfuddsoddi, boicot a sancsiynau i ddod â'r system apartheid a'r rhyfel hil-laddol hwn i ben.

Barclays, McDonalds, Starbucks, ac enwi ychydig yn unig.

Protestiwch, gorymdeithiwch, cerddwch allan o'r gwaith.

Roedd 2023 yn flwyddyn wirioneddol erchyll i Balestiniaid; eleni mae'n rhaid i ni wneud popeth o fewn ein gallu i ddod â'r rhyfel cywilyddus hwn yn erbyn sifiliaid, ysbytai, gofal iechyd, y rhyfel hwn yn erbyn plant i ben.

Rhaid inni bwyso ar ddewrder, gwrthwynebiad, gobaith a phenderfyniad pobl Palestina a defnyddio ein lleisiau i ddal ein harweinwyr gwleidyddol yn gyfrifol a dod â phwysau arnynt i weithredu.

Rhaid inni fynnu eu bod yn galw am gadoediad parhaol yn awr ar unwaith a chaniatáu mynediad cyson i gymorth dyngarol brys.

Fodd bynnag, mae'r gofynion hyn yn annigonol ar eu pen eu hunain. A chyda llaw, mae hyd yn oed y gofynion hyn – y lleiafswm posib – yn ymddangos y tu hwnt i allu pawb ac eithrio lleiafrif egwyddorol o'n cynrychiolwyr etholedig.

Pleidleisiodd cynifer o'n Haelodau Seneddol yn erbyn cadoediad. Cywilydd arnyn nhw.

Ac yma yng Nghymru, lle cafodd pleidlais yn galw am gadoediad ei chefnogi gan Senedd Cymru, fe wnaeth llawer ymatal a phleidleisio yn erbyn hynny. Cywilydd arnyn nhw.

Dylid atgoffa'r rhai wnaeth ymatal o eiriau Desmond Tutu:

"Os ydych chi'n niwtral mewn sefyllfaoedd o anghyfiawnder, rydych chi wedi dewis ochr y gormeswr."

Felly mae'n rhaid i ni hefyd alw am erlyn pawb sy'n gyfrifol am droseddau yn erbyn y ddynoliaeth, troseddau rhyfel a hil-laddiad, neu'n eu cefnogi. Rwy'n cynnwys yma fethiant y llywodraeth yn San Steffan i atal yr hil-laddiad ac iddynt wadu eu cyfrifoldeb wrth beidio â galw am gadoediad.

Rhaid rhoi diwedd ar y meddiant, diwedd ar y gwladychu. Rhoi'r hawl i'r Palestiniaid sydd wedi'u dadleoli o'u cartrefi fynd yn ôl adre. A chydweithio â'r Palestiniaid i weld Palestina rydd.

Rhaid i'n cydsefyll fod yn ystyrlon. Ni cheir heddwch heb gyfiawnder. Galwn am gadoediad nawr, am ryddid i Balesteina!

*David McKnight*

(Mae David yn ymwelydd cyson â Phalesteina a thiroedd y meddiant ac yn gweithio fel swyddog undeb llafur.)

# Croesi moroedd: stori Jonathan a Nela

Dyma hanes rhyfeddol un eglwys ac un cwpl yn dilyn galwad Duw ar draws y cefnforoedd, o'r Pilipinas a'r UDA, i Gymru …



Dathliad Nadolig Llan Llanast capel Deer Park, Rhagfyr 2023

'Roedden ni'n gwybod nad oedden ni'n gallu fforddio gweinidog, ond wyth mlynedd yn ôl fe benderfynon ni weddïo am un beth bynnag – gweddïo ar i Dduw wneud yr amhosibl! Ac ry'n ni wedi bod ar daith ers hynny,' meddai Dave gyda gwên.

Un o ddiaconiaid Eglwys Deer Park, Dinbych-y-pysgod, yw Dave. Mae Deer Park wedi bod yn weddol unigryw erioed, gyda gweinidogaeth yn ystod yr haf i bobl ar eu gwyliau ac adeilad Gothig trawiadol a swmpus. Ond er gwaethaf gweinidogaeth lwyddiannus, yn y blynyddoedd diwethaf roedd yr aelodaeth wedi gostwng i ffigurau sengl am y tro cyntaf, a doedd dim gweithgareddau canol wythnos ar ôl. Roedd pethau wedi mynd mor heriol fel bod sgyrsiau'n dechrau cael eu cynnal am ddyfodol yr eglwys. Ein hymateb cyntaf oedd: 'Na'n wir – ydy Cymru yn faes cenhadol erbyn hyn?'

Tua'r un pryd, roedd cwpl Ffilipino-Seisnig filoedd o filltiroedd i ffwrdd yn yr Unol Daleithiau yn ymweld â chynhadledd Gristnogol wrth iddynt archwilio'r hyn roedden nhw'n credu oedd yn alwad i genhadaeth yn Ne neu Ganol America.

'Fe gawson ni sgwrs gyda Foursquare Missions am ein hawydd i fynd i'r maes cenhadol,' eglurodd Jonathan. 'Fe ofynnon nhw, "Ydych chi erioed wedi ystyried gweinidogaethu mewn eglwys yng Nghymru?" Ein hymateb cyntaf oedd: "Na'n wir – ydy Cymru yn faes cenhadol erbyn hyn?"'

Ond po fwyaf roedden nhw'n ystyried, yn gweddïo ac yn ymchwilio, po fwyaf yr oedd hi'n ymddangos fel petai Duw wedi eu paratoi ar gyfer hynny yn union. A phan ddaethon nhw i Gymru yn 2019, roedden nhw'n teimlo'n gartrefol yn syth.

Ym mis Rhagfyr 2020, comisiynwyd Jonathan a Nela fel cenhadon i Gymru gan eu heglwys yng Nghaliffornia, ond doedden nhw ddim yn gwybod i ble yn union y bydden nhw'n mynd. Yn ystod y gwasanaeth, cafodd Nela weledigaeth annisgwyl o'r môr. Ym mis Mawrth 2021, cafodd hi weledigaeth arall o'r môr wrth iddi hi weddïo, a dyna pryd y teimlai fod Duw yn dweud ei fod yn eu galw nhw i Ddinbych-y-pysgod. Derbyniodd hi hefyd Salm 29, adnod 3, sy'n sôn am y môr – ac arwyddair Dinbych-y-pysgod fel tref yw'r môr. Cadarnhawyd hyn ymhellach gan amgylchiadau a geiriau proffwydol gan eraill.



Dathlu'r flwyddyn newydd gyda swyddogion yr eglwys, gyda Jon a Nella ar ben y bwrdd

Cyrhaeddon nhw Gymru yn haf 2021. Yr un pryd, roedd Dave, y diacon o Deer Park, wedi clywed am ddyfodiad Jonathan a Nela yn sir Benfro ac fe wnaeth eu gwahodd i ddod i gwrdd â'r eglwys. Blodeuodd y berthynas, gyda Jonathan yn sefydlu sesiwn wythnosol i bobl hŷn i gael cymorth gyda'u hanghenion TG, gan ddechrau meithrin perthynas â'r gymuned.

'Felly, fe welsom ni Dduw yn gwneud yr amhosib!' cadarnha Dave. 'Ac bleidleisiodd yr aelodau'n unfrydol o blaid cael Jonathan a Nela yma fel bugeiliaid. Mae Duw wedi troi'r sefyllfa ar ei phen – mae gennym ni weithgareddau cenhadol yn wythnosol erbyn hyn, a gweinidogion wedi dod i weithio yma'n llawn amser gyda ni. Mae'r cyfan wedi'i adeiladu ar weddi.'

Cafodd Jonathan a Nela eu sefydlu fel gweinidogion mewn gwasanaeth llawn ffydd yn Deer Park ddydd Sadwrn, 25 Chwefror 2023. Ers eu sefydlu, maen nhw wedi gweld y niferoedd yn codi, gyda 20–25 o bobl yn dod i wasanaethau Sul dros yr haf. Cawsant hefyd y llawenydd o groesawu aelod newydd i'r eglwys, a dechreuwyd nifer o weinidogaethau a mentrau cenhadol newydd lleol o fewn yr eglwys. Mae'r eglwys yn teimlo'n llawn bywyd! Maen nhw hefyd yn gweddïo am ffyrdd i gyrraedd cenedlaethau iau, ac yn awyddus i gadw gweddi yn sylfaen yn yr eglwys.

Rydyn ni'n llawn cyffro i weld yr hyn sydd gan Dduw ar gyfer Dinbych-y-Pysgod! Beth am i ni weddïo dros Deer Park, Nela a Jonathan, wrth iddyn nhw fentro ar yr antur ffydd hon yn Ninbych-y-pysgod!

# Portread o John Calfin a'i ddylanwad o fewn Eglwys Bresbyteraidd Cymru

John Calfin yw arwr pennaf cenedl y Cymry yn ei holl hanes. Bu mwy o ddisgyblion ganddo yng Nghymru na'r un diwygiwr arall. Er mor wych oedd Martin Luther a Huldreych Zwingli fel sêr y Diwygiad Protestannaidd, ni chafodd yr un o'r ddau yr un dylanwad o fewn Cymru ac ymhlith y Cymry ag a gafodd John Calfin. Dylanwadodd Calfin ar bob enwad a chorff crefyddol, yn gadarnhaol ran amlaf ond weithiau o dan lach rhagfarn. Arddelwyd enw John Calfin yn yr enw swyddogol ar y Methodistiaid pan ffurfiwyd y Corff yn y flwyddyn 1811, yr unig enwad y gwn i amdano yn hanes gwledydd Ewrop lle y digwyddodd hynny.

Mab i gyfreithiwr eglwysig oedd John Calfin. Ganwyd ef ar 10 Gorffennaf 1509 yn Noyon, tref esgobol yn Picardy, tua 100 cilometr i'r gogledd o ddinas Paris. Roedd ei dad yn gefnog ac yn awyddus i'w fab gael pob cyfle o fewn yr Eglwys Babyddol. Roedd ei fam, Jeanne, yn ferch i dafarnwr, yn ddefosiynol ei ffyrdd a hardd ei gwedd. Ond bu hi farw pan oedd John, ei phedwerydd mab, yn chwe blwydd oed. Rhoddodd y bychan ei fryd ar fod yn offeiriad Pabyddol, ac aeth i Brifysgol Paris yn y flwyddyn 1520 i astudio Diwinyddiaeth, Lladin a Mathemateg.

Ond yn sydyn newidiodd ei dad ei feddwl. Nid oedd dyfodol ariannol disglair i fachgen talentog o fewn yr Eglwys Babyddol. Byddai'n well iddo arbenigo yn y Gyfraith. Yn 1525 symudodd Calfin i dref Orleans i arbenigo yn y Gyfraith, ac oddi yno i Bourges. Cafodd yr hyfforddiant yn y Gyfraith ddylanwad parhaol arno, yn arbennig wrth gynllunio'r drefn Bresbyteraidd eglwysig. Ond pan fu farw ei dad yn 1531 teimlodd y myfyriwr yn rhydd i droi ei gefn ar y Gyfraith am ei ddiléit pennaf, y Clasuron, a symudodd yn ôl i Brifysgol Paris ym 1532.

Roedd ei Athro Groeg, Melchior Wolmar, Almaenwr, wedi ei gyflwyno hefyd i ddysgeidiaeth Brotestannaidd Martin Luther. Cafodd fodd i fyw pan ddaeth argraffiad o'r Testament Newydd Groeg, campwaith Desiderius Erasmus, i'w ddwylo, a daeth dan gyfaredd y Dyneiddwyr Dechreuodd gyhoeddi ar ei liwt ei hun, ac ymddangosodd ei lyfr cyntaf, sef esboniad ar gyfrol o eiddo Seneca, athronydd o Rufain a chyfoeswr i'r Apostol Paul, *De Clemencia* (Ynghylch Tosturi) yn 1532. Ond llosgodd ei fysedd yn y fenter. Oherwydd i Nicholas Cop, rheithor Prifysgol Paris, fentro canmol syniadaeth Luther, cythruddwyd yr awdurdodau eglwysig a gwladol. A chan fod Calfin wedi dangos cefnogaeth i safbwynt y Diwygiad, bu'n rhaid iddo ffoi am ei einioes i'r Swistir. Roedd yr hiwmanydd bellach wedi troi'n Brotestant – tröedigaeth yng ngwir ystyr y gair. Nid tröedigaeth sydyn ydoedd, ond un a gymerodd saith mlynedd i aeddfedu, rhwng 1527 ac 1534.

Ymdeimlai'r gŵr ifanc â thri pheth. Yn gyntaf, mai Duw oedd wedi ei alw a chafodd ei lorio'n llwyr gan ras Duw. Yn ail, sylweddolodd ei fod ef yn cael ei alw i fod yn ddisgybl. Yn drydydd, doedd y Duw oedd yn galw ac yn cynysgaeddu'r disgybl ddim yn rhoi llonydd iddo yn ei lyfrgell. Gŵr swil, ofnus, yn caru'r encilion oedd Calfin. Ei ddymuniad pennaf oedd cael treulio'i ddyddiau ar y ddaear gyda'i lyfrau allan o sŵn o dwndwr a phoen y byd. Ond ni chafodd mo'i ddymuniad: roedd Duw yn ei alw i ganol y frwydr, ac yntau mor anfodlon.

Treuliodd Calfin ei fywyd fel alltud mewn dwy ddinas: yn Strasbwrg o 1538 hyd 1541 fel gweinidog i ffoaduriaid o Ffrainc, ac yna yn Genefa o 1539 ymlaen (er iddo hefyd dreulio dwy flynedd yn Genefa o 1536 i 1538). Priododd â gweddw a dau o blant ganddi a ganwyd iddynt fab, ond bu farw yn ei blentyndod.

Pan oedd yn byw Basel, yn y Swistir, cyn iddo fynd i Genefa, cafodd gyfle gyda'i lyfrau, a chyhoeddwyd yr argraffiad cyntaf o'i waith mawr *Institutio Christianae Religionis* (Bannau'r Grefydd Gristnogol) ym mis Mawrth 1536. Chwe phennod yn unig oedd yn yr argraffiad hwn, ond ymhen tair blynedd, pan oedd yn Strasbwrg, cyhoeddwyd argraffiad arall, llawer mwy o faint. Paratôdd wyth argraffiad yn yr iaith Ladin (rhwng 1536 ac 1559) a phum argraffiad yn yr iaith Ffrangeg (rhwng 1541 ac 1560). Dyma'r gyfrol bwysicaf a baratowyd yn ystod y Diwygiad Protestannaidd, ac fe gyfrifir y gwaith yn un o glasuron pennaf diwinyddiaeth Gristnogol o fewn y teulu Diwygiedig. Mentraf ei grynhoi dan ddeg o benawdau:



Llun: https://upload.wikimedia.org/wikipedia/commons/1/19/John_Calvin_-_Young.jpg
(Parth Cyhoeddus, Bibliothèque publique et universitaire, Genève)

1. Awdurdod y Beibl
   Roedd cytundeb llwyr rhyngddo ef, Luther a Zwingli ar y mater hwn. Y Beibl yw llyfrgell y ffydd. Ond roedd ef yn wahanol i'w gyd-Ddiwygwyr mewn un peth. Rhoddai Calfin yr un pwyslais ar yr Hen Destament ag a roddai eraill ar y Testament Newydd. Ni chytunai ef o gwbl â'r rhai a ddadleuai fod rhannau o'r Beibl, megis Caniad Solomon, Esther ac Epistol Iago ('epistol wellt', yn ôl Luther) wedi eu cynnwys yn y Beibl mewn camgymeriad. Iddo ef cabledd oedd hynny. Gwaith Duw yw'r Beibl o Genesis i'r Datguddiad.

2. Penarglwyddiaeth Duw
   Duw yw'r Bugail a ninnau'n bobl ei gonsýrn, ei gariad, a'i ofal. Penarglwyddiaeth Duw yw credu fod Duw yn llond pob lle. Cofiwn bennill David Jones, Treborth, Bangor a disgybl brwdfrydig i John Calfin:

   Mae Duw yn llond pob lle,
   Presennol ym mhob man;
   Y nesaf yw Efe
   O bawb at enaid gwan ...

3. Natur dyn a natur Duw
   I Calfin roedd byd o wahaniaeth rhwng mawredd Duw a bychander dyn. Crëwyd dyn i ogoneddu a mawrygu Duw, ac i Calfin mae gwybodaeth o Dduw a'r wybodaeth ohonom ni ein hunain yn un. Ni allwn adnabod Duw heb adnabod ein hunain ac nid ydym yn adnabod ein hunain heb adnabod Duw. Fedr neb edrych arno'i hun yn y drych heb feddwl yn syth am Dduw.

4. Etholedigaeth
   Roedd Calfin yn credu fod y ffydd Gristnogol yn cynnig achubiaeth i bob un a gredo. 'Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist a chadwedig fyddi, ti a'th

(parhad ar y dudalen nesaf)

## *Portread o John Calfin a'i ddylanwad o fewn Eglwys Bresbyteraidd Cymru*

deulu,' meddai Paul wrth ofalwr carchar tref Philipi. I Luther a Zwingli y syniad pwysig oedd 'cyfiawnhad trwy ffydd', ond gwelai Calfin y drefn yn wahanol. Pwysleisiai etholedigaeth a rhagordeiniad, a chostrelwyd hyn yn gofiadwy gan un o'i ddisgyblion o blith Cymry Lerpwl, Pedr Fardd:

> Cyn llunio'r byd, cyn lledu'r
> nefoedd wen,
> Cyn gosod haul na lloer na sêr
> uwchben,
> Fe drefnwyd ffordd yng nghyngor
> Tri yn Un
> I achub gwael golledig euog ddyn.

Torrodd Calfin ei lwybr ei hun trwy ymresymu fod Duw wedi penderfynu ein llwybrau cyn ein geni. Dywed ymhellach fod modd i bob unigolyn i ddod o hyd i'r gyfrinach drwy ffydd a chred, ymroddiad i weithredoedd da, addoli, a gwasanaethu'r Arglwydd. Dyna nodau etholedigaeth. Ond dirgelwch llwyr ydyw'r cyfan yn y diwedd.

5. Y Sacramentau
   Dau sacrament yn unig – bedydd babanod a'r Cymun Bendigaid – oedd yn ei ddiwinyddiaeth. Dyma ddwy ffordd i arwain pob un ohonom at Grist. Credai fod Crist yn bresennol yn ysbrydol yn y Cymun a bod yr Ysbryd Glân yn cael ei drosglwyddo i ni yn nhoriad y bara a thywalltiad y gwin.

6. Yr Eglwys
   Gofidiai'n fawr o weld yr Eglwys Babyddol wedi colli'r ffordd ar natur a phwrpas yr Eglwys, a bod yr Ail Fedyddwyr ar y llaw arall yn gweld yr eglwys fel dyfais dynion da, ac y medrwch fod yn ddisgybl hebddi. Nid oedd hyn yn bosib gan mai'r eglwys, yn ei dyb ef, oedd y fam a ninnau'n blant Duw sy'n dad. Hoffai Calfin sôn am yr eglwys ddaearol, weledig, yn eglwys filwriaethus, fel y gwnâi Gwenallt yn ei farddoniaeth (un arall a goleddodd Galfiniaeth ar ôl ymwadu â Marcsiaeth). Ond soniai hefyd am yr eglwys nefol, anweledig a buddugoliaethus.

7. Trefn yr Eglwys
   Ysbrydoliaeth Calfin oedd yr Eglwys Fore. Dyna a'i harweiniodd i sefydlu patrwm Presbyteraidd. O dan y drefn Galfinaidd, y presbyter (gweinidog) oedd y person pwysicaf yn yr eglwys a'i waith oedd cynnal gwasanaethau, pregethu'r efengyl, gweinyddu'r sacramentau a bod yn gyfrifol am ysbrydoli'r aelodau. Pam roedd y gweinidog mor bwysig i Calfin? Am mai arno ef y mae'r cyfrifoldeb am ddehongli a rhannu'r Gair, fel y dywed un diwinydd Calfinaidd cyfoes, Timothy George, fel 'tad yn rhannu'r bara yn ddarnau bychain i fwydo ei blant'.

   Mae angen dau lais ar weinidog, yn ôl Calfin: un i gasglu'r defaid ynghyd, a'r llall i ymlid y bleiddiaid a'r lladron. Yna sonia am y doctoriaid; eu gwaith oedd dysgu'r gwir athrawiaethau i'r bobl a chymryd peth o'r baich oddi ar ysgwyddau'r gweinidog. Daw'r blaenoriaid wedyn ac yna'r diaconiaid, a'u gwaith hwy yw bugeilio'r aelodau sy'n sâl ac yn anghenus a chadw'r tlodion rhag digalonni. Yr henuriaid lleyg hyn (a alwn ni yn flaenoriaid) sydd â chyfrifoldeb am yr eglwys, yr adeiladau, a hefyd maent i gadw golwg ar ymddygiad y saint a gweithredu disgyblaeth pan fo'r galw. Hwy sydd i drosglwyddo clod a beirniadaeth i'r gweinidog.

8. Safle Iesu yn y ddiwinyddiaeth ddeallusol a elwir yn Galfiniaeth
   Mae'n amhosibl deall safbwynt Calfin heb roi lle i'r Iesu, ac mae'n amhosibl amgyffred ein Gwaredwr heb y pwyslais Protestannaidd arno fel proffwyd, brenin ac offeiriad.

9. Gweddi
   Y bennod hiraf yn argraffiad 1559 o'r *Institutio* yw'r bennod ar weddi. Rhoddodd bedair rheol i ni eu cofio:

a) Dewch at Dduw mewn parchedig ofn
b) Dylem ddod ato oherwydd ein hangen
c) Rhaid inni ildio pob hyder ynom ein hunain a phledio am bardwn Duw
ch) Gweddïwn yn hyderus yn ein geiriau ein hunain gerbron gorsedd gras, gyda gobaith am fywyd tragwyddol.

   I Calfin, y rhan bwysicaf o'r oedfa yw gweddi'r gynulleidfa. Dylai'r weddi gyhoeddus fod yn iaith y wlad: Cymraeg ymhlith y Cymry, ac nid Lladin ymysg y Saeson na'r Ffrancwyr, ond Saesneg a Ffrangeg.

10. Pwysigrwydd addysg
   Pe bai Calfin yn cael ei ffordd, byddai pob capel ac eglwys â'i ysgol ddyddiol. Gweithiodd yn galed o blaid addysg, a'i gyfraniad mawr yn ninas Genefa oedd iddo erbyn 1559 lwyddo i agor academi yn y dref. Cyfunai'r academi ysgol a phrifysgol, a daeth yn gyrchfan i gannoedd ar gannoedd o fyfyrwyr o bob rhan o Ewrop.

(Bydd yr ail ran yn ymddangos ymhen pythefnos)

*D. Ben Rees*

# Cofio'r Holocost – 'Bregusrwydd Rhyddid'

27 Ionawr yw'r diwrnod a nodir yn flynyddol i gofio am y chwe miliwn o Iddewon a lofruddiwyd yn yr Holocost a'r miliynau o bobl a laddwyd gan ormes y Natsïaid, ynghyd â'r hil-laddiadau a ddigwyddodd wedyn yng Nghambodia, Rwanda, Bosnia a Darfur. Mae 27 Ionawr yn nodi diwrnod rhyddhau'r rhai oedd yn gaeth yn Auschwitz Birkenau, gwersyll crynhoi mwyaf y Natsïaid. Eleni, y thema ar gyfer Dydd Coffáu'r Holocost yw 'bregusrwydd rhyddid'.


Mae'r Cyngor Cristnogion ac Iddewon wedi ysgrifennu'r weddi isod i adlewyrchu'r thema hon ac felly, gan ddilyn yr arweiniad hwn, rydym yn annog Cristnogion i weddïo'r geiriau hyn:

**Bregusrwydd Rhyddid**
Dduw tragwyddol, deuwn ger dy fron, yn ymwybodol bod rhyddid yn beth bregus, i gofio am bawb a ddioddefodd yn yr Holocost.
Galarwn am y chwe miliwn o Iddewon a laddwyd yn yr Holocost, y miliynau o bobl eraill a ddioddefodd dan ormes y Natsïaid, ynghyd â phawb sydd wedi dioddef yn sgil hil-laddiadau eraill.
Wrth i ni gofio am y gorffennol, cynorthwya ni heddiw i arfer y rhyddid sydd gennym i amddiffyn y rhai y cymerir eu rhyddid oddi arnynt.
Gweddïwn am ddydd pan fydd pawb yn rhydd i fyw mewn tangnefedd, undod a chariad.
Amen.

Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan yr Holocaust Memorial Day:
https://www.hmd.org.uk/wp-content/uploads/2023/11/HMD-2024-Theme-Vision_WELSH_v1.pdf

# *Gair Duw ar Waith*
## gan Denzil I. John

**Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd**




**Pennod 19**
**Caplaniaeth Ysbyty**
**Sul, 4 Chwefror**

**Gweddi**
Dduw pob gofal a chefnogaeth, diolchwn i ti am y diwrnod a'i gyfleoedd newydd. Helpa ni i ddarllen y ddameg ac i werthfawrogi dy fod yn gweld y claf ym mhob cymdeithas. Trugarha wrthym yn ein gwendid. Amen.

**Darlleniad: Marc 9: 14–29** Iacháu plentyn

**Cyflwyniad**
Ceir nifer o enghreifftiau lle daw rhywun â chlaf at Iesu a gofyn am ei fendith. Dro arall, bydd y claf ei hun yn galw am help neu bydd Iesu yn gweld claf ac yn gweithredu mewn trugaredd. Mae'r gwyrthiau iacháu hyn yn dangos y bu iddynt adael argraff fawr ar y disgyblion, a rannodd yr hanesion ddegawdau yn ddiweddarch. Bydd gan ambell berson y ddawn i ryddhau poen neu ddeall tyndra cyhyrau, ond prin fod unrhyw un ar lwyfan hanes yn medru gwneud yr hyn a wnaeth Iesu.

Nid oes modd gwybod sawl gwyrth iacháu a gyflawnodd Iesu yn ystod tair blynedd o weinidogaeth ar y ddaear. Felly, gofynnwn beth oedd amcan yr Efengylwyr wrth ddethol yr enghreifftiau a gawn? Yn yr hanes hwn dangosir nad drwy drafod ond drwy arfer ffydd yr oedd Iesu yn cyflawni'r hyn a nodir fel gwyrth. 'O chwi o ychydig ffydd' oedd ei ymateb i Iddewiaeth ei ddydd. Bydd amryw o feddygon trwyddedig yn y byd yn cydnabod bod y Weinidogaeth Iacháu wedi cyflawni'r hyn na all ysbytai ei wneud, er y gwyddom am feddygon disglair yn gweddïo wrth erchwyn gwelyau cleifion hefyd.

Bu pobl glaf erioed, ac yn ein dyddiau ni byddwn yn ddiolchgar am feddygon a nyrsys sy'n gweithio mewn ysbytai neu yn y feddygfa leol. Rhyfeddwn hefyd at ddoniau'r rhai sy'n gwneud gwaith ymchwil gan ddarganfod cyffuriau newydd a thriniaethau gwahanol.

**Myfyrdod**
Ynghanol bwrlwm y byd meddygol, ceir llu o weithwyr pwysig sy'n helpu'r gwasanaeth i ddarparu ar gyfer y claf. Diolchwn am y gweinyddwyr, y glanhawyr a'r bobl sy'n cludo cleifion oddi mewn i'r ysbytai. Diolch am yrwyr ambiwlans a'r bobl sydd gyda'r cyntaf i ymateb pan fydd galwad frys. Diolch hefyd am y caplaniaid sydd bellach yn gweithio, yn amlach na pheidio, i'r Awdurdod Iechyd, ond sy'n annibynnol o'r ddarpariaeth feddygol uniongyrchol. Ceisir sicrhau caplaniaid o bob haen enwadol ac maent yn derbyn hyfforddiant i'w cynnal yn y gwaith. Byddant yn gorfod bod yn wrandawyr da ac yn derbyn ymddiriedaeth lwyr y claf, a hynny heb fodd o'i adnabod cynt. Cynhelir oedfaon yn gyson yn y capel neu ystafell benodol ar gyfer addoliad a myfyrdod, a bydd y caplan yn cynnig defosiwn a chymun i'r claf sydd angen hynny.

Fel caplaniaid eraill mewn diwydiant, carchardai a'r lluoedd arfog, bydd y caplan angen doethineb ac adnoddau arbennig i gwrdd â'r sefyllfaoedd hynny. Nid pob gweinidog sy'n gyfaddas â'r gofyn, ac mae'r angen yn sylweddol, yn arbennig os yw'r claf ymhell o'i gartref a'i weinidog yn methu bod yno ar awr y pryder mawr. Dyma weinidogaeth sy'n gwasanaethu eraill yn enw Iesu, drwy gynnig neu gadarnhau ffydd a chalonogi claf, beth bynnag ei amgylchiadau.

**Gweddi**
Diolch, Arglwydd, am bob caplan ysbyty sy'n medru sôn amdanat yn dyner a chyda dwyster. Nid oes modd i ni wybod beth yw natur y weinidogaeth hon heb ein bod yn dystion iddi, a gweddïwn dros y gwŷr a'r gwragedd sy'n gaplaniaid yn dy enw di ymysg cleifion a staff ein hysbytai. Bugeilia hwy drwy dy Ysbryd. Amen.

**Cwestiynau i'w hystyried**
1. Pan fydd pobl resymol yn dweud nad ydynt yn Gristnogion oherwydd iddynt fethu derbyn bod y gwyrthiau wedi digwydd, beth a ddywedwn?
2. Ai gallu ymenyddol ambell un yw'r rhwystr pennaf i dderbyn Duw?
3. Wrth ryfeddu at allu dyn, a oes perygl inni golli golwg ar aruthredd gallu Duw?
4. Sut byddwn yn amgyffred 'ysbryd aflan' heddiw?

S4C
*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 4 Chwefror am 7.30yh**
Diwrnod Cancr y Byd
Ar Ddiwrnod Cancr y Byd, mae Lisa Gwilym yn cwrdd â Guto Morgan Jones o Ynys Môn, gŵr ifanc a drechodd salwch difrifol. A chawn berfformiad o glasur Eric Jones, 'Y Tangnefeddwyr'.

BBC radio cymru
*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 4 Chwefror, am 7:30yb a 16:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni'r Parchedig Anna Jane Evans

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 4 Chwefror, am 12yp**
Oedfa dan ofal Aled Wyn Williams, Llanllwni

# Cysylltu Eglwysi ac Ysgolion – profiadau aelodau

Yn 2022, gofynnodd Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru i mi ddiwygio a diweddaru llyfryn Gillian Wood, *Linking Churches and Schools,* Churches Together in England, 2003. Derbyniodd Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru fy fersiwn diwygiedig yn ddiweddarach y flwyddyn honno (*Cysylltu Eglwysi ac Ysgolion,* 2022) a'i anfon at aelodau'r Cyngor a'u heglwysi er mwyn ei ddarllen a gweithredu.

Yn gyd-destun ehangach i hyn oedd y ffaith fod Cwricwlwm i Gymru Llywodraeth Cymru wedi dechrau cael ei weithredu yn ein hysgolion cynradd ac uwchradd o fis Medi 2022. Fel rhan o'r cwricwlwm newydd hwn roedd gofyn i ysgolion sicrhau bod dysgwyr yn datblygu ymdeimlad dilys o 'gynefin'. Ystyrir cynefin fel lle rydym yn teimlo ein bod yn perthyn, lle mae'r bobl a'r dirwedd o'n cwmpas yn gyfarwydd a lle gellir adnabod golygfeydd a synau sy'n rhoi sicrwydd i ni. Mae'n caniatáu i ddysgwyr ddatblygu ymdeimlad cryf o hunaniaeth unigol a deall sut mae hyn yn cysylltu â dylanwadau ehangach ac wedi'u llywio ganddynt. Mae eglwysi a chapeli wrth gwrs yn rhan annatod o'r cynefin hwn ac mae hyn yn agor cyfleoedd i eglwysi lleol (fel sefydliadau lleol eraill) ddyfnhau eu cysylltiadau â'u hysgolion lleol. Trwy wneud hyn mae eglwysi yn cyfrannu at lunio cwricwlwm eang a chytbwys sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol, diwylliannol a meddyliol dysgwyr a'u paratoi ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd oedolyn.

Wrth ystyried y datblygiadau cyffrous hyn, meddyliais y byddai'n fuddiol casglu enghreifftiau gan aelodau eglwysi'r enwad ar beth oedd eu cysylltiad â'u hysgolion lleol ac yn enwedig felly ar fater Addoli ar y Cyd ac addysgu mewn ysgol. Gyda chydweithrediad Eleri Melhuish a'r Dr Carys Moseley o Swyddfa'r enwad, Ysgrifenyddion yr Henaduriaethau ac ysgrifenyddion yr eglwysi, cefais ddigon o ymatebion yn ystod 2023 i feddwl y byddai'n werth i mi eu rhannu gyda'r eglwysi erbyn diwedd y flwyddyn. Rwy'n ymwybodol iawn bod cysylltiad eisoes yn bodoli ac wedi bodoli rhwng eglwysi ac ysgolion ers blynyddoedd lawer ond doedd neb, hyd y gwn i, wedi casglu'r profiadau hyn at ei gilydd a'u rhannu er gwybodaeth ac er mwyn ysbrydoli ein gilydd ar y mater hwn.

Diolch yn fawr i chi felly am eich cyfraniadau ac am eich gwaith gyda'ch ysgolion lleol. Mae'n dystiolaeth ac yn gyfraniad pwysig i'r genhadaeth Gristnogol yn ein cymdeithas.

Nod y ddogfen hon yw rhoi cipolwg ar y cysylltiad rhwng eglwysi'r enwad a'u hysgolion lleol; mae'n siŵr bod mwy o enghreifftiau na hyn ar gael ond dyma'r hyn a ddaeth i law. Mae'r profiadau canlynol gan aelodau'r enwad wedi'u cyflwyno yn ôl y drefn y derbyniais i nhw ganddynt trwy e-bost ers dechrau 2023.

Cliciwch ar y ddolen isod i ddarllen yr adroddiad:
https://www.ebcpcw.cymru/wp-content/uploads/2023/12/Dogfen-Cysylltu-Eglwysi-ag-Ysgolion-Cym.pdf


*Vaughan Salisbury*
*Swyddog Addysg EBC*
*Ionawr 2024*

# Taith Weddi Cytûn Bae Colwyn a'r Rhos


Yn ddiweddar trefnwyd taith weddi ddwyieithog (ar droed) o gwmpas eglwysi Llandrillo-yn-Rhos. Y man cychwyn oedd Capel y Rhos, a welir yn y llun. Ymwelsom ag eglwysi Sant Siôr a Sant Trillo, capel bach Trillo ac Eglwys yr URC. Offrymwyd gweddi wrth bob eglwys dros ei gwaith yn y gymuned. Ger yr ysgol gynradd a chanolfan y Sgowtiaid cafwyd gweddi dros blant ac ieuenctid, athrawon, arweinwyr a rhieni. Bu gweddïau hefyd dros waith dau gaplan, un yng nghartref Adlington House a'r llall yn gaplan siopau a busnesau. Cafwyd croeso cynnes, sgwrs a phaned yn URC Rhos a chytunodd pawb i hon fod yn daith fendithiol iawn. Byddwn yn trefnu rhagor o deithiau tebyg eleni.

*Iona Williams*
*Capel y Rhos*





# Cyhoeddi cofiant Saesneg cyntaf yr Arglwydd Gwilym Prys-Davies




Wele'r cofiant cyntaf yn Saesneg (addasiad hollol gelfydd o waith arloesol blaenorol yn y Gymraeg a gafodd groeso eithriadol o gynnes) yr Arglwydd (Gwilym) Prys-Davies (1923–2017). Lluniwyd y gyfrol gan un o'n cofianwyr gwleidyddol disgleiriaf, sydd eisoes wedi cyhoeddi cofiannau swmpus, uchel eu bri i William Abraham (Mabon), Aneurin Bevan, Jim Griffiths a Cledwyn Hughes. Bu'r awdur yn hynod ffodus gan mai ef oedd un o'r ymchwilwyr cyntaf oll i ddefnyddio'r archif sylweddol o bapurau gwleidyddol a phersonol Prys-Davies a gyflwynwyd gan ei deulu i Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn fuan ar ôl ei farw. O fewn y gyfrol afaelgar hon atgyfnerthwyd gwybodaeth bersonol ddwfn yr awdur gan ymchwil archifol eang a darllen deallus ymhlith nifer fawr o rifynnau o bapurau newyddion perthnasol.

Roedd y Parchedig D. Ben Rees, un a fu'n frwd ei gefnogaeth i'r Blaid Lafur trwy gydol ei fywyd ac yn weithgar o'i mewn, yn adnabod Prys-Davies yn bersonol yn dda iawn dros nifer fawr o ddegawdau. Daethant i gysylltiad am y tro cyntaf ym 1962, a pharhau mewn cysylltiad agos o hynny ymlaen hyd at farwolaeth Prys-Davies yn 2017. Yn fuan daethant yn gyfeillion mynwesol a oedd yn parchu ac yn edmygu ei gilydd yn fawr iawn.

Gan nad oedd yr Arglwydd Prys-Davies yn wleidydd proffesiynol ac yn un a oedd wrth natur yn unigolyn gwylaidd ac encilgar, un nad oedd byth yn hoffi cyhoeddusrwydd, nid yw ei gampau sylweddol wedi eu gwerthfawrogi'n llawn. Prin iawn yw'r cofiannau hynny a gyhoeddwyd i unigolion a lafuriodd yn ddiflino yn y cefndir, ond mae'r astudiaeth hon yn eithriad nodedig. Yn rhy aml o lawer, cofir am Prys-Davies yn bennaf fel yr ymgeisydd aflwyddiannus ar ran y Blaid Lafur yn isetholiad tyngedfennol Sir Gaerfyrddin ym mis Gorffennaf 1966 pan gipiwyd yr etholaeth gan Gwynfor Evans, llywydd Plaid Cymru.

Ond rhoddir sylw llawn o fewn y cofiant campus hwn i orchestion niferus yr Arglwydd Prys-Davies. Yn eu plith mae ei gyfraniad sylweddol at gynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn y llysoedd yn ystod y 1960au, ei gefnogaeth i sefydlu S4C ym 1982, a'i gyfraniad mawr at lunio a phasio'r Deddfau Iaith Gymraeg 1967 a 1993. Bu hefyd yn frwd ei gefnogaeth i ymdrechion ynghylch datganoli yn fwy cyffredinol drwy gydol ei fywyd, ac roedd yn un a wasanaethodd fel 'ymgynghorydd arbennig' i John Morris, AS, pan oedd yn Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru yn ystod y 1970au. A rhoddodd gyngor gwerthfawr i nifer o wleidyddion Cymreig eraill. Yn rhy aml o lawer, roedd y Swyddfa Gymreig fel sefydliad yn ddi-ddangos-ochr ac yn llugoer braidd ei chefnogaeth yn ei hagweddau at ddatganoli. Roedd unigolion fel Prys-Davies yn gwneud cyfraniad mawr at unioni'r sefyllfa.

Mae'r awdur wedi meistroli pob agwedd ar fywyd a gyrfa ei wrthrych. Yn eu plith mae'r blynyddoedd ffurfiannol a dreuliodd yn Llanegryn yn sir Feirionnydd, ei gefndir teuluol, ei gyfnod cyffrous yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, ei gyfraniad nodedig o fewn Mudiad Gweriniaethol Cymru yn ŵr ifanc, a'i berthynas bwysig â gwleidyddion fel Huw T. Edwards a Goronwy O. Roberts, AS. Ceir sôn hefyd am nifer o wleidyddion Llafur eraill o fewn y stori eithriadol ddifyr hon.

Mae'r deunydd newydd ar Fudiad Gweriniaethol Cymru yn arbennig o arwyddocaol, carfan y condemniwyd ei gweithgareddau gan D. J. Williams, Abergwaun, fel dim byd mwy na 'gorchestion plentynnaidd'. Ac roedd adroddiadau gelyniaethus o fewn y wasg yn condemnio'i aelodau fel 'Bolsieficiaid Cymreig gyda barfau a bomiau'.

Ymhlith cyfreithwyr y dyfodol y daeth Prys-Davies i gysylltiad â hwy yn Aberystwyth yr oedd Emlyn Hooson, Elystan Morgan a John Morris. Daeth y tri ohonynt yn y pen draw yn wleidyddion o fri ac ymhen amser yn aelodau blaenllaw o Dŷ'r Arglwyddi. Eraill a fynychai'r coleg yn ystod yr un cyfnod oedd Jennie Eirian Davies, R. Cyril Hughes a Gwyn Alf Williams. Maent oll yn ymddangos o fewn y gyfrol hon. Roeddent oll ymhlith penseiri Cymru ddatganoledig yr unfed ganrif ar hugain.

Er bod Ben Rees yn edmygu ei wrthrych yn fawr iawn, a'i gyfraniad cyfoethog mewn nifer o feysydd dylanwadol, nid yw'r astudiaeth yn plymio i ddyfnderoedd gwag gwaith cynffonnwr. Rhoddir sylw llawn i wendidau Prys-Davies drwy gydol y testun.

Mae'r cofiant campus hwn yn astudiaeth eithriadol o deg ac yn rhoi sylw ysgolheigaidd addas i bob agwedd ar fywyd a gyrfa Prys-Davies. Mae'n gyfraniad sylweddol at ein dealltwriaeth o fywyd gwleidyddol dros gyfnod hir ac yn sicrhau na fydd Gwilym Prys-Davies fyth yn mynd yn angof. Mae'n gyfrol ddeniadol sy'n cynnwys llu o ffotograffau hyfryd a mynegai a luniwyd yn eithriadol o ofalus.

D. Ben Rees, *A Proud Welsh Patriot: a Biography of Gwilym Prys-Davies* (Modern Welsh Publications, 2023; 502pp; 978-1-914584-38-1; pris: £15)

*J. Graham Jones*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru